



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Dyslecsia

Rydym ar y Llawr Gwaelod Isaf, Neuadd
Rathbone, Ffordd y Coleg, Bangor, LL57
2DF

Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad i weld
cyngorwr:

Ffôn: 01248 383620 / 01428382032
E-bost: gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

[http://www.bangor.ac.uk/student-services/
disability/dyslexia.php.cy](http://www.bangor.ac.uk/student-services/disability/dyslexia.php.cy)

**Mae'r daflen ar gael mewn
gwahanol fformatau**

Mae **dys-lecsia** yn golygu 'anhawster gyda geiriau'. Mae'r gwahaniaethau niwrolegol sy'n gysylltiedig ag ef yn gyffredinol yn ymwneud â phroblemau iaith ysgrifenedig: mae sgiliau darllen a sillafu fel rheol yn llawer iawn anoddach eu meistroli, ac nid ydynt yn dod yn awtomatig o angenrheidrwydd. Rhaid i fyfyrwyr dyslecsig roi mwy o amser, ymdrech a chanolbwyntio mwy ar bob elfen o dasgau sy'n seiliedig ar eiriau wrth astudio.

Yn ogystal, gall problemau dyslecsig fod yn amlwg wrth:

- Ddefnyddio cof tymor byr - cofio gwybodaeth a geir drwy wrando, darllen neu ysgrifennu.
- Gosod deunydd mewn trefn - rhoi trefn ar waith ysgrifenedig, trefnu syniadau, gwneud gwaith cyfrifo.
- Prosesu gwybodaeth yn gyflym - mewn darlithoedd, bras-ddarllen at ddibenion ymchwil mewn llyfrau neu ar y rhyngwyd.
- Rheoli amser.

"Dyslecsia yw fy chweched synnwyr, un yr ydw i'n ddiolchgar o'i gael, mewn sawl modd. Mae wedi rhoi cymaint o gyfleoedd i mi na fyddwn i wedi eu cael o bosib pe na bai fy ymennydd yn ddyslecsig."¹

Er gwaethaf yr anawsterau hyn, yn aml, mae gan bobl ddyslecsig gryfderau mawr drwy eu gallu i:

- Wneud cysylltiadau annisgwyl rhwng syniadau.
- Meddwl mewn lluniau.
- Delweddu mewn tri dimensiwn.
- Gweithio'n greadigol.
- Gweld pethau o safbwynt cyfannol.

¹<http://www.beingdyslexic.co.uk/forums/index.php?showtopic=1378>